# Egluro jargon Pact

| | |
|---|---|
| **Carchar EF** | Carchardai Ei Fawrhydi |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| **YOI** | Sefydliad Troseddwyr Ifanc |
| **Categori'r Carchar** | Categorïau carchardai yw A, B, C a D:<br>Mae carchardai Categori A yn dal carcharorion sy'n cael eu hystyried yn risg uwch i'r cyhoedd neu'n fwy tebygol o ddianc.<br>Mae'r carchardai Categori B yn garchardai 'lleol' neu'n garchardai hyfforddi. Mae 'lleol' yn golygu eu bod yn gwasanaethu'r llysoedd, yn cadw pobl ar remand, ac yn cymryd carcharorion sydd newydd gael eu dedfrydu.<br>Mae carchardai Categori C yn garchardai hyfforddi neu ailsefydlu. Nod y carchardai hyn yw darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith a chefnogi pobl i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau neu eu symud i Gategori D.<br>Mae carchardai Categori D yn garchardai 'agored' heb fawr o fesurau diogelwch. Mae'r carchardai hyn yn caniatáu i garcharorion weithio neu hyfforddi yn y gymuned a hyd yn oed treulio ambell benwythnos gartref. Dim ond carcharorion sy'n cael asesiad risg sy'n nodi eu bod yn addas fydd yn cael eu trosglwyddo i'r categori hwn. |
| **NPS** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **Caethiwed** | Mae'n cyfeirio at yr amser y mae person yn ei dreulio yn y carchar neu yn "nalfa'r heddlu" mewn gorsaf heddlu. |
| **Mechnïaeth** | Pan ganiateir i berson sydd wedi'i gyhuddo o drosedd aros yn y gymuned tan ei wrandawiad llys neu ei ddedfryd. Efallai y bydd amodau ynghlwm wrth hyn, megis peidio â theithio y tu allan i'w hardal a pheidio â chysylltu â chyd-ddiffynyddion neu dystion. |
| **Remand** | Pan fydd person sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn cael ei anfon i'r carchar tra bydd yn aros am dreial. Efallai y bydd y llys yn penderfynu rhoi rhywun ar remand ar sail euogfarnau blaenorol, eu bod wedi torri amodau mechnïaeth o'r blaen, neu bryder y gallent droseddu tra byddant ar fechnïaeth neu'n dianc/peidio ag ymddangos yn eu treial. |
| **Dedfryd** | Yr amser i'w dreulio yn y carchar. |

| | |
|---|---|
| HDC neu Dag | Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (sydd weithiau'n cael ei alw'n "tag"). Pan fydd rhywun yn cael ei ryddhau'n gynnar i gwblhau gweddill y ddedfryd yn y gymuned. Byddant yn cadw at amodau fel cyrffyw ac efallai y bydd yn rhaid iddynt wisgo tag GPS. |
| Trwydded neu Oruchwyliaeth | Amser a dreulir yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau lle mae'r unigolyn dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ac efallai y bydd yn rhaid iddynt gadw at amodau trwydded. Gallai'r rhain gynnwys aros i ffwrdd o ardaloedd neu bobl benodol, byw mewn cyfeiriad penodol, ac adrodd yn rheolaidd i'r gwasanaeth prawf. |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Mae hyn yn digwydd pan fydd asiantaethau fel yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf ac awdurdodau lleol eraill a phartneriaid elusennol yn cydweithio i reoli troseddwyr risg uchel yn y gymuned. |

© Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact), 29 Peckham Road, London, SE5 8UA
Rhif Elusen 219278 | Rhif Cwmni 356443